



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Cyngor Sir Gâr

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 369A2017



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Jeremy Evans ac Alison Lewis o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17	4
Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus	4
Argymhellion	5
Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17	6

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn	16
Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol	17
Atodiad 3 – Argymhellion Adroddiadau Cenedlaethol 2016-17	20

Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

- 1 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Cyngor Sir Gâr (y Cyngor) ei hun. Yn ystod 2016-17, ymgwymerwyd â gwaith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau a chynllunio gwelliant ac adrodd arno. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn gan archwiliadau lleol ar sail risg, a nodir yng Nghynllun Archwilio 2016-17.
- 2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn [Arddangosyn 1](#).

Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

- 3 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

- 4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
 - wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
 - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
 - cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
 - argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.
- 5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (**Atodiad 3**) fel rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2016-17.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Llywodraethu			
Mai 2017	<p>Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau</p> <p>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau.</p>	<p>Mae gan y Cyngor ddull effeithiol o benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau a'u cyflawni ar y cyfan, ond mae cyfleoedd i wella tryloywder a chysondeb trefniadau;</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu amgylchedd a diwylliant i annog a galluogi newidiadau sylweddol i wasanaethau; • mae'r Cyngor wedi nodi canllawiau clir ar gyfer llywodraethu'r gwaith o newid gwasanaethau, ond nid yw pwyllgorau craffu bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i adolygu a herio penderfyniadau; • nid oes gan y Cyngor ddull cyson o gynnal arfarniadau o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau; • mae gan y Cyngor brosesau datblygedig ar waith er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau; • mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith newidiadau i wasanaethau; ac • nid yw dull y Cyngor o adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn ddigon clir. 	<p>Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu drwy sicrhau'r canlynol:</p> <p>C1 Dylai Pwyllgorau Craffu fanteisio'n well ar gyfleoedd i herio cynigion a phenderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.</p> <p>C2 Dylai swyddogion weithio gyda chynghorwyr i nodi lefel y wybodaeth y mae cynghorwyr am ei gweld am opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn fwy tryloyw.</p> <p>C3 Dylai'r Cyngor adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a chylch gorchwyl y Gweithgor Adolygu Corfforaethol er mwyn egluro eu priod gyfrifoldebau am asesu ac adolygu trefniadau llywodraethu.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Y defnydd o adnoddau			
Rhagfyr 2016	<p>Llythyr archwilio blynyddol 2015-16 Llythyr sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau er bod lle i wella o hyd mewn rhai meysydd; rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond mae lle i'r Cyngor wneud rhagor o welliannau o hyd; ac nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon na systemau ariannol allweddol. 	Dim
Mawrth 2017	<p>Cynllunio arbedion Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau arbedion ariannol, gan gynnwys pa mor dda y mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a chyflawni arbedion cyllidebol, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol.</p>	<p>Er bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio arbedion, sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol, erys rhywfaint o ddiffyg tryloywder yn yr adroddiadau ariannol o hyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16: <ul style="list-style-type: none"> mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 82% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni. Trefniadau cynllunio ariannol: <ul style="list-style-type: none"> mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ond cyfyngedig yw'r cysylltiadau rhwng prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol ac adroddiadau i'r Aelodau. 	<p>C1 Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> datblygu cysylltiadau penodol rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a phrosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor; cynnwys adroddiadau monitro ar gyfer cynlluniau arbedion gyda'r adroddiadau monitro ariannol chwarterol sydd ar gael i'r cyhoedd; sicrhau bod amserlenni cyflawni mewn achosion busnes yn gadarn;

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Arbedion 2016-17 <ul style="list-style-type: none"> mae'r Cyngor yn rhagweld y caiff 86% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 eu cyflawni ond nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion nac amserlenni cyflawni realistig. 	<ul style="list-style-type: none"> llunio'r polisi cynhyrchu incwm/ codi tâl yn derfynol a'i gymeradwyo; a chymeradwyo'r strategaeth a ddatblygwyd ynglŷn â chronfeydd wrth gefn.
Archwilio perfformiad lleol ar sail risg			
Gwaith dilynol ar ddetholiad o'r Cynigion Asesu Corfforaethol ar gyfer Gwella			
Mai 2017 (fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol)	<p>Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol - Llywodraethu</p> <p>Cynigion ar gyfer Gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> datblygu blaenraglenni gwaith i sicrhau bod pob pwyllgor priodol wedi cyhoeddi rhaglen gyfredol a berchenogir gan Aelodau'r pwyllgorau; cyhoeddi cofrestr o benderfyniadau dirprwyedig; datblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu Aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhoi hyfforddiant gloywi ar hyn wrth i Aelodau newid rolau; 	<p>Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella ond yn cydnabod bod mwy i'w wneud.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mae'r pwyllgorau wedi cytuno ar Flaenraglenni Gwaith ac wedi'u cyhoeddi ond nid yw'r cynghorwyr yn llwyr berchen ar y rhaglenni eto. Rydym yn cyhoeddi Cynnig pellach ar gyfer Gwella yn y maes hwn. mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfleuster newydd i gyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan swyddogion. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a ddelir ar y cyfleuster hwn yn gyflawn. Byddwn yn monitro cynnydd o ran y gwaith hwn yn ein rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18. mae'r Cyngor wedi dechrau sefydlu dull mwy rhagnodedig o hyfforddi cynghorwyr ac wedi cynllunio rhaglen sefydlu lawn a gynhelir ar ôl etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Byddwn yn arsylwi ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn i ddod. 	<p>Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff rôl cynghorwyr o ran datblygu'r Blaenraglenni Gwaith i bwyllgorau a pherchenogaeth ohonynt ei chynnwys mewn hyfforddiant i gynghorwyr.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
	<ul style="list-style-type: none"> adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyflawni'r hyn y disgwylir iddo ei gyflawni yn benodol – drwy sicrhau bod y Pwyllgor yn cael copïau o bob adroddiad rheoleiddio a'i fod yn ystyried adroddiadau ariannol, risg a thwyll a thrwy wella lefel y wybodaeth a rennir â'r pwyllgor mewn perthynas â chofrestr risg y Cyngor ac eitemau cyfyngedig. 	<ul style="list-style-type: none"> cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio hunanadolygiad ym mis Gorffennaf 2016 a arweiniodd at nifer o newidiadau. Bydd SAC yn olrhain cynnydd o ran y camau gweithredu hyn yn ystod y flwyddyn i ddod ac yn asesu a ydynt wedi cael effaith gadarnhaol. 	
<p>Mai 2017 (fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol)</p>	<p>Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol Y Defnydd o Adnoddau - Pobl</p> <p>Cynigion ar gyfer Gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> cwblhau a gweithredu'r strwythur diwygiedig ar gyfer yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad; sicrhau bod pob aelod o staff yn cael gwerthusiad perfformiad unigol blynyddol; 	<p>Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran pob un o'r elfennau yn y cynnig ar gyfer gwella a chynnydd sylweddol o ran y gofynion technolegol ar gyfer y gwasanaeth Rheoli Pobl.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mae'r gwaith o ad-drefnu'r Tîm Rheoli Pobl bellach wedi'i gwblhau. mae'r Tîm Rheoli Pobl yn nodi sut i wella ansawdd ac effeithiolrwydd proses arfarnu'r Cyngor. mae'r Tîm Rheoli Pobl yn datblygu un cynllun cyfathrebu symlach; mae wedi cynnal cyfarfodydd effeithiol ym mhob swyddogaeth; ac mae'n parhau i ddefnyddio sesiynau galw heibio yn llwyddiannus i gyfleu negeseuon allweddol. 	<p>Ni chyhoeddwyd unrhyw Gynigion Pellach ar gyfer Gwella.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
	<ul style="list-style-type: none"> • symleiddio dulliau cyfathrebu o fewn yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfleu mentrau rheoli pobl i'r gweithlu ehangach; • adolygu'r systemau ac offer TGCh a ddefnyddir o fewn yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad a llywio datblygiadau er mwyn cyflawni'r canlynol o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> – un cofnod personél; – hunanwasanaeth effeithiol; – gweithio ystwyth ar gyfer swyddogion yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad; – cyfleu gofyniad busnes clir ar gyfer TGCh i'r Grŵp Strategaeth TGCh; a – gwneud defnydd mwy effeithiol o system adrodd Insight. 	<ul style="list-style-type: none"> • mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella'r defnydd a wneir o systemau meddalwedd a ffyrdd o weithio'r Adran Adnoddau Dynol. Mae'r Tîm Rheoli Pobl yn gweithio mewn ffordd fwy ystwyth gan ddefnyddio'r offer cywir; ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'r Tîm TGCh. 	

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
<p>Mai 2017 (fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol)</p>	<p>Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol Y Defnydd o Adnoddau - Asedau</p> <p>Cynigion ar gyfer Gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> atgyfnerthu'r cynlluniau rheoli asedau ar lefel gwasanaethau a gwella cysylltiadau rhwng y cynlluniau hyn a'r cynllun rheoli asedau corfforaethol cyffredinol; ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun rheoli asedau corfforaethol a'r strategaeth swyddfeydd i Aelodau bob chwarter. 	<p>Mae'r Cyngor wedi gwella'r cysylltiadau rhwng y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd a'r Cynlluniau Rheoli Asedau ar lefel Gwasanaethau ond mae ansawdd y cynlluniau ar lefel gwasanaethau yn amrywio o hyd.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cynnwys cysylltiadau â'r Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ansawdd y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn amrywio ac mae angen gwneud gwaith pellach i wella'r wybodaeth a geir ynddynt er mwyn ategu cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn well. Mae rhaglen wedi'i llunio ar gyfer adolygu'r Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn ystod 2017. mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r flaenstrategaeth ar gyfer swyddfeydd gydag ymagwedd gorfforaethol newydd tuag at symud swyddfeydd a ffocws cliriach ar weithio ystwyth. Disgwylir i'r Strategaeth Swyddfeydd gael ei hadolygu yn ystod gwanwyn 2017. 	<p>Ni chyhoeddwyd unrhyw Gynigion Pellach ar gyfer Gwella.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<ul style="list-style-type: none"> • mae'r cynghorwyr yn cael eu hysbysu am y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd mewn perthynas â rheoli asedau bob chwe mis. Ceir mesurau perfformiad penodol ar gyfer rheoli asedau yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gellid gwella'r ffordd yr adroddir ar y rhain ac mae swyddogion wedi ymrwymo i sicrhau bod y data yn fwy defnyddiol ac yn haws eu deall. 	
<p>Mai 2017 (fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol)</p>	<p>Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol Y Defnydd o Adnoddau – TGCh a Rheoli Gwybodaeth</p> <p>Cynnig ar gyfer Gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod ffrydiau gwaith TGCh yn datrys y datgysylltiad ymddangosiadol rhwng y busnes a'r gwasanaeth TGCh ac yn ystyried anghenion busnes yn briodol. 	<p>Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datrys y problemau roedd yn eu hwynebu gyda'i wasanaeth TGC.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r Cyngor wedi ailsefydlu ei grŵp llywodraethu TGCh (Grŵp Trawsnewid Digidol) gyda chynrychiolaeth o bob gwasanaeth a'r swyddogaethau cymorth canolog, a gadeirir gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd; • mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth trawsnewid digidol sy'n cysylltu'n dda â ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n sbarduno newid, mae'r strategaeth hon wrthi'n cael ei chymeradwyo ar hyn o bryd; • mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o weithdai ymgysylltu er mwyn ceisio barn gwasanaethau a dangos ffyrdd newydd o weithio a hwylusir gan atebion digidol; ac • mae'r Cyngor wedi adolygu strwythur, adnoddau a gallu ei wasanaeth TGCh er mwyn helpu i'w ail-lunio, gan sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol. 	<p>Ni chyhoeddwyd unrhyw Gynigion Pellach ar gyfer Gwella.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
<p>Mai 2017 (fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol)</p>	<p>Gwaith Dilynol ar yr Aseiad Corfforaethol – Cynllunio Gwelliant</p> <p>Cynigion ar gyfer Gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu cyfeiriad cliriach a her broffesiynol mewn perthynas â phob mater rheoli perfformiad i sicrhau y caiff fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor ei gymhwyso'n gyson a rhannu arfer da. 	<p>Er bod y Cyngor wedi cyflwyno nifer o newidiadau cadarnhaol i'w swyddogaeth cynllunio gwelliant, mae diffyg arweiniad ar lefel rheoli corfforaethol yn arafu cynnydd o ran atgyfnerthu trefniadau cynllunio gwelliant.</p> <p>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mae'r Cyngor wedi dechrau atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a chynllunio gwelliant; mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ansawdd cynlluniau busnes gwasanaethau a'r defnydd a wneir ohonynt drwy wneud y canlynol: nodi safonau sylfaenol, cyflwyno gwiriadau a heriau newydd a chynnwys Penaethiaid Gwasanaethau yn y gwaith o ddatblygu syniadau ynglŷn â sut i wella'r broses ond nid yw'r datblygiadau hyn wedi'u hymgorffori eto ac mae cynlluniau yn anghyson; mae'r Cyngor yn gwella ansawdd y wybodaeth a ddelir ar ei system rheoli perfformiad (PIMS) ond mae angen iddo gymryd camau pellach i ymgorffori arfer da; a chynhelir sesiwn hyfforddi Cyngorwyr ar system PIMS yn 2017 er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r wybodaeth am berfformiad i gefnogi eu rôl. 	<p>Ni chyhoeddwyd unrhyw Gynigion Pellach ar gyfer Gwella.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Cynllunio ac adrodd ar welliant			
15.09.16	<p>Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru</p> <p>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. Cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Gwella 2016-17 ac Asesiad o Berfformiad 2015-16 gyda'i gilydd mewn un ddogfen.</p>	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol.	Dim
15.09.16	<p>Archwiliad o asesiad o berfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru</p> <p>Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor. Cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Gwella 2016-17 ac Asesiad o Berfformiad 2015-16 gyda'i gilydd mewn un ddogfen.</p>	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol.	Dim
Adolygiadau gan gyrrff arolygu a rheoleiddio			
Gorffennaf 2016	<p>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)</p> <p>Adolygiad Cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru – Cyngor Sir Gâr</p>	<p>Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y ddolen hon:</p> <p>Adolygiad Cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru – Cyngor Sir Gâr</p>	Ni chyflwynodd AGGCC unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn ond gwnaeth gynnwys 'meysydd i'w hystyried'.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Medi 2016	<p>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Arolygiad o Wasanaethau Plant</p>	<p>Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y ddolen hon:</p> <p>Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant</p>	<p>Argymhellion:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydweithrediad effeithiol o ran gwaith partneriaid statudol o gwblhau Fframweithiau Asesu ar y cyd. 2. Dylai'r awdurdod lleol sefydlu systemau effeithiol i sicrhau y deallir trothwyon ar gyfer cael mynediad at wasanaethau statudol ac y cânt eu gweithredu'n gyson gan staff a phartneriaid. 3. Mae'n rhaid gwella cysondeb ac ansawdd y gwaith cymdeithasol a dadansoddi risg sydd mewn asesiadau a chynlluniau. 4. Dylid cryfhau ansawdd arolygiaeth y rheolwyr o asesiadau a chynlluniau. 5. Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i wasanaethau plant barhau, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sydd ar waith i'r gwasanaeth yn cael blaenoriaeth, a bod cyflymder y gwaith o wella yn cael ei gynnal. 6. Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid barhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull integredig o gyflenwi gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwasanaethau ataliol a darpariaeth statudol i gyflawni mwy o gysondeb a lleihau dyblygiadau ar gyfer plant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Atodiad 1

Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'.

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried pa mor debygol ydyw y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Hefyd, yr asesiad yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Atodiad 2

Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cyngorydd Emlyn Dole
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

19 Rhagfyr 2016

Annwyl Gyngorydd Dole

Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Caerfyrddin 2015 -16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm hymateb statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd yn ôl o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Bu i'r Cyngor gydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd yn ôl yn ariannol a defnyddio adnoddau er bod lle i wella mewn rhai meysydd o hyd

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- gosod systemau rheolaeth fewnol yn eu lle er mwyn sicrhau fod trafodion yn gyson ac yn gyfreithiol ac i wneud yn siŵr fod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw i adolygu trefniadau addas i ddiogelu darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn disgwyl i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i ddiogelu darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon.

Bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Codau Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Seilir y Cod hwn ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016, cyhoeddais farn archwilio ddiamed ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno barn gywir a theg o safle ariannol a thrafodion Cronfa Bensiwn y Cyngor ac un Dyfed. Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau fod y gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol wedi cael eu cwblhau ar yr un diwrnod. Cynhwysir fy adroddiad a'r dystysgrif oddi mewn i'r Datganiad Cyfrifon.

Adroddais am y materion allweddol oedd yn codi o'r archwiliad i'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 30 Medi 2016. Adroddais fod y Cyngor wedi darparu'r datganiadau ariannol drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol o 30 Mehefin, a'n bod, yn gyffredinol, wedi canfod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymharol, yn hanfodol ac yn hawdd i'w deall.

Serch hynny, roedd gennym rai gofidiau o ran prosesau'r Cyngor o ran y modd yr oedd yn priso rhai mathau o asedau. Roedd ein gofidiau'n ymwneud â:

- chyfraddau a ddefnyddiwyd wrth brisio asedau penodol;
- darparu tystiolaeth ar benderfyniadau; a
- threfniadau gwarantu ansawdd mewnol.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i wneud gwelliannau ymhob un o'r meysydd hyn ar gyfer 2016-17 abyddwn ni'n adolygu'r prosesau adolygedig hyn fel rhan o'n harchwiliad 2016-17.

Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ond erys lle i'r Cyngor wneud gwelliannau pellach

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Daeth fy Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, i'r casgliad bod y Cyngor, wrth ddangos uchelgais yn ei weledigaeth, gydag arweinyddiaeth ar y cyd a llywodraethu mwy cadarn a thryloyw, yn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer ei dinasyddion er y gallai rhai dulliau hen-ffasiwn o weithredu gyfyngu ar gyflymder y cynnydd. Daethpwyd i'r casgliad hwn ar ôl ystyried ein canfyddiadau manwl ar berfformiad, defnyddio adnoddau a llywodraethu, a ddangosir isod:

- **Perfformiad** – mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, ac er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac mae wedi cydymffurfio â'r Mesur Llywodraeth Leol 2009.

- **Defnyddio adnoddau** – mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli'i adnoddau wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, ond mae'r dull presennol wedi dyddio mewn rhai meysydd ac mae angen ei gysylltu'n fwy penodol â chynlluniau gwasanaeth a allai helpu i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion yn y dyfodol.
- **Llywodraethu** – mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd yn bodoli i wneud gwelliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau.

Nid yw fy ngwaith hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon neu systemau ariannol allweddol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i wella rheolaeth grantiau dros nifer o flynyddoedd ac mae rhai o'r camau hyn bellach yn darparu gwelliannau. Erys rhai meysydd ble mae angen i'r Cyngor wella'i drefniadau ardystio grantiau.

Dangosir y prif feysydd ble roedd angen gwelliannau isod:

- diffyg cydymffurfio â rheolau caffael y Cyngor ei hun;
- dyfarnu cyllid i drydydd parti a'r gwiriadau dilynol bod yr arian grant wedi ei wario yn unol â thelerau ac amodau'r cynllun;
- cyfiawnhad dros daliadau a dosraniadau mewnol a gynhwysir mewn ceisiadau am grant fel costau cymwys ar gyfer cyllid grant; a
- thystiolaeth gefnogol i gadarnhau eitemau gwariant cymwys yn yr hawliad (tri hawliad).

Rwyf wedi dechrau fy archwiliad o grantiau 2015-16 a byddaf yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn fuan yn 2017, pan fydd rhaglen y gwaith ardystio wedi dod i ben.

Disgwylir i'r ffi archwiliad ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â'r ffi a gytunwyd ac a amlinellir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

Richard Harries

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

cc. Mark James, Prif Weithredwr
Chris Moore, Prif Swyddog Ariannol

Atodiad 3

Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Awst 2016	Cydnherthedd Ariannol Awdurdodau Lleol Cymru 2015-16	<p>Yn ein hadroddiad yn 2014-15 (Cydnherthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru, Ebrill 2015) gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd llawer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac roedd angen i awdurdodau wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â hwy yn ystod 2016-17. At hynny, gwnaethom hefyd yr argymhellion canlynol ar sail ein hadolygiad mwy diweddar:</p> <p>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none">• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;• alinio strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;• datblygu cynlluniau arbedion amflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;• categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol. <p>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Polisiâu Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl corfforaethol.</p> <p>A3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd werth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith a'r defnydd o'r rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</p> <p>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</p> <p>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny trwy gydol y flwyddyn.</p> <p>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol.</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Hydref 2016	Diogelwch Cymunedol yng Nghymru	<p>Roedd y saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn gofyn i amrywiaeth o randdeiliaid - Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddau, aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - weithredu'n unigol ac ar y cyd:</p> <p>A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgyssylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.</p> <p>A2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.</p> <p>A3 Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol.</p> <p>A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.</p> <p>A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol; • sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a • sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg. <p>A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.</p> <p>A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol; • cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac • adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Tachwedd 2016	Trefniadau Awdurdodau Lleol i Godi Tâl am Wasanaethau a Chynhyrchu Incwm	<p>Gwnaeth yr adroddiad hwn wyth argymhelliad, yr oedd chwech ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhellion A4 ac A6 yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu:</p> <p>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.</p> <p>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.</p> <p>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith (Atodiad 2) bob tro wrth ystyried newid taliadau.</p> <p>A5 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.</p> <p>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu; • gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion; • meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a • darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn. <p>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd.</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ionawr 2017	Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector	<p>Gwnaeth yr adroddiad hwn dri argymhelliad, yr oedd dau ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhelliad A3 yn gofyn i Lywodraeth Cymru weithredu:</p> <p>A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymhell y dylai swyddogion awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 3 i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector; • nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; a • drafftio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso a'i roi ar waith. <p>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. E Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwyllo ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymhell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd.</p>

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru